



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



23/2/21

I Sylw: Rhieni'r Cyfnod Sylfaen

Annwyl Rieni,

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Gyngor Môn ddoe, dyma fanylion pellach ynglŷn â dychweliad disgyblion y cyfnod sylfaen i'r ysgol.

Ar hyn o bryd, ein cynllun yw dychwelyd **holl** ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn ôl i'r ysgol pan ganiateir hynny gan yr Awdurdod Lleol. Trwy osgoi dychwelyd y plant yn raddol, bydd hyn yn sicrhau eglurder i chi fel rhieni ac yn osgoi unrhyw ddryswch pellach a'r angen i ni newid cynlluniau eto. Yn gryno: unwaith y bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi dyddiad i ni pryd y gall disgyblion y cyfnod sylfaen ddychwelyd i'r ysgol, gall **holl** ddisgyblion cyfnod sylfaen Ysgol Parc y Bont ddychwelyd ar y dyddiad yma. Ar hyn o bryd, **ddydd Llun 1af Mawrth** yw'r dyddiad yma. **Bydd y dyddiad yma yn cael ei adolygu ac felly fe all newid.**

Bydd y diwrnod ysgol yr un oriau â'r arfer sef 8.50am-3.00pm (Meithrin 8.50am-12.00pm Llun-lau). Am y tro, ni fydd cinio ysgol yn cael ei ddarparu, felly bydd angen pecyn bwyd ar eich plentyn. Pan fydd plant y cyfnod sylfaen yn dychwelyd, bydd y Clwb Gofal Bore a'r Clwb Brecwast yn ail agor. I'ch atgoffa: mae'r Clwb Gofal Bore rhwng 7.50am a 8.15am – mae angen 'bwcio' a thalu ffi o £1.10 y dydd/y plentyn ar-lein ar *School Gateway*. Mae'r clwb brecwast am ddim yn cychwyn am 8.15am.

Bydd y Clwb Hwyl (ar ôl ysgol) yn ail agor yr un diwrnod ag y bydd plant y cyfnod sylfaen yn dychwelyd. Eto, mae angen 'bwcio' o flaen llaw a thalu ar-lein ar *School Gateway*.

Yn y cyfamser, bydd darpariaeth dysgu o bell (gwaith ar-lein) ar gyfer pob disgybl. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant o dan anfantais.

Rydym wir yn deall bod y sefyllfa bresennol yn rhwystredig iawn i bob un ohonom. Y mae'r sefyllfa fel ag y mae ar Môn ar hyn o bryd y tu hwnt i'n rheolaeth ni fel ysgol, ond, fe allwch chi fel rhieni wneud eich rhan i atal lledaeniad y feirws. Fe ddylai pawb, er enghraifft, fod yn cyfyngu eu cyswllt ag eraill – mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir na ddylai plant fod yn mynd i dai ei gilydd i chwarae ac na ddylent fod yn cyfarfod mewn mannau cyhoeddus hyd yn oed os ydynt yn rhannu'r un 'swigen ysgol'.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, yna cysylltwch â ni'n syth o.g.y.dd.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch dealltwriaeth.

Cofion,

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)